# Pest Control Services

## 01352 701234

pestcontrol@flintshire.gov.uk



Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

## Who are we?

Flintshire County Council Pest Control offers a professional and comprehensive service for both domestic and commercial clients when YOU need it most.

## What do we do?

Our services range from basic advice on pest prevention to the direct control of rodents and insects.

Our rates are competitive and include follow-up visits.

All our work is carried out in line with current health and safety regulations, protecting non-target animals. All pest control officers are fully trained and qualified to industry standards.

We use pesticides and preventative measures to ensure that the infestations are identified and remedied as quickly and humanely as possible. We also provide information on how to prevent the pests returning.

We currently offer the removal of the following pests:

- Rats
- Mice
- Fleas
- Wasps
- Crawling ants

For other pests, please refer to the Yellow Pages or www.yell.com.

## Commercial contracts

We offer maintenance contracts to services and organisations who require on-going support.

A pest maintenance contract with Flintshire County Council is tailored to suit your individual needs and provides the following:

- Regular scheduled inspections by our pest control officers;
- Pest monitors installed throughout the site;
- An annual fixed price for the term of the contract;
- Information binder (containing summary of visits, contract specifications, site risk assessments, pesticide safety data and useful contact numbers).

## Get in touch!

For professional advice and more information, call Flintshire County Council's Streetscene Call Centre on 01352 701234 or email pestcontrol@flintshire.gov.uk.

You can also visit our page on the Council's website www.flintshire.gov.uk.

# Gwasanaethau Rheoli Pla

**01352 701234**

**pestcontrol@flintshire.gov.uk**



Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council

## Pwy ydym ni?

Mae Gwasanaethau Rheoli Pla Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwasanaeth proffesiynol a chynhwysfawr i gleientiaid domestig a masnachol pan fydd ei angen arnoch CHI fwyaf.

## Beth ydym yn ei wneud?

Mae ein gwasanaethau'n amrywio o gyngor sylfaenol ar atal plâu i reoli cnofilod a phryfed yn uniongyrchol.

Mae ein cyfraddau'n gystadleuol ac yn cynnwys ymweliadau dilynol.

Mae ein holl waith yn cael ei wneud yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch cyfredol, gan ddiogelu anifeiliaid nad ydynt yn darged. Mae'r holl swyddogion rheoli plâu wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn gymwys i safonau'r diwydiant.

Rydym yn defnyddio plaladdwyr a mesurau ataliol i sicrhau bod y plâu yn cael eu nodi a'u cywiro cyn gynted â phosibl a heb iddynt ddioddef. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am sut i atal y plâu rhag dychwelyd.

Ar hyn o bryd, gallwn gael gwared ar y plâu canlynol:

- Llygod Mawr
- Llygod
- Chwain
- Cacwn
- Morgrug

Ar gyfer plâu eraill, cyfeiriwch at Yellow Pages neu www.yell.com.

## Contractau masnachol

Rydym yn cynnig contractau cynnal a chadw i wasanaethau a sefydliadau sydd angen cymorth parhaus.

Mae contract cynnal a chadw plâu gyda ni yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'ch anghenion unigol ac yn darparu'r canlynol:

- Arolygiadau rheolaidd wedi'u trefnu gan ein swyddogion rheoli plâu;
- Offer monitro plâu wedi'u gosod ar draws y safle;
- Pris sefydlog blynyddol ar gyfer cyfnod y contract;
- Ffeil wybodaeth (yn cynnwys crynodeb o ymweliadau, manylebau contract, asesiadau risg y safle, data diogelwch plaleiddiaid a rhifau cyswllt defnyddiol).

## Cysylltwch â ni!

I gael cyngor proffesiynol a rhagor o wybodaeth, ffoniwch Ganolfan Alw Gwasanaethau Stryd Cyngor Sir y Fflint ar 01352 701234 neu e-bostiwch pestcontrol@flintshire.gov.uk.

Gallwch hefyd ymweld â'n tudalen ar wefan y Cyngor www.siryfflint.gov.uk.